# STRATEGAETH RHEOLI NEWID DDRAFFT











| **Perchennog: Swyddfa Rheoli Portffolio** |
|---|
| **Awdur:** C D Mathews |
| **Dyddiad yr adolygiad nesaf: I'W GADARNHAU** |

**Hanes y Fersiwn:**

| Fersiwn | Dyddiad | Adran | Adolygwr | Disgrifiad o'r Diwygiad |
|---|---|---|---|---|
| 1.0 | 22/10/2020 | Pawb | CDM | • Drafft f1 |
| 2.0 | 22/10/20 | Pawb | HVE | • Drafft diwygiedig f2 |
| 3.0 | | | | • |
| 4.0 | | | | • |
| 5.0 | | | | • |

# Tabl Cynnwys

Pwrpas4

Mathau o Newid4

Categorïau Newid4

Proses Rheoli Newid6

Cam 1:  Diffinio Newid6

Cam 2: Asesu Newid6

Cam 3:  Pennu'r ffordd ymlaen - cymeradwyo neu wrthod y newid7

Proses Ddyrchafu Rheoli Newid8

Protocol Dyrchafu Newid8

Proses ar gyfer ymdrin â dyrchafu8

Newidiadau Portffolio - Proses ar gyfer Ystyried Prosiectau Newydd9

Atodiadau11

Atodiad: Ffurflen Cais i Newid11

Atodiad B: Enghraifft o Gofrestr Newid13

Atodiad C - Atebolrwydd Rheoli Newid15

# Pwrpas

Mae'r Strategaeth Rheoli Newid yn nodi dull Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru o reoli newid yn ystod y gwaith o gyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru.

Gyda phortffolio cymhleth o bum rhaglen a 14 o brosiectau trawsffurfiol dros gyfnod o 15 mlynedd, mae newid yn anochel. Bydd y dulliau a'r arfau a nodir yn y strategaeth hon yn galluogi i newidiadau posib gael eu cofnodi, eu hasesu a'u rheoli mewn modd a reolir i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Twf.

Mae'r strategaeth hon yn eistedd law yn llaw â'r Strategaeth Rheoli Risg a Materion fel arfau allweddol ar gyfer rheoli risgiau, materion a newid.

Prif amcanion y strategaeth hon yw nodi'r dulliau i:

- gofnodi ceisiadau am newid
- rheoli newid o'r cychwyn hyd at gwblhau
- asesu effaith a blaenoriaeth posib ceisiadau newid
- sicrhau yr ystyrir ceisiadau newid ar y lefel briodol - portffolio, rhaglen neu brosiect
- pennu'r ffordd ymlaen - cymeradwyo neu wrthod y newid
- cyfathrebu'r penderfyniad ac effaith y newid i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (y Bwrdd Uchelgais) a'i bartneriaid.

# Mathau o Newid

Fel egwyddor, dylid rheoli newid ar lefel briodol o fewn y portffolio. Ystyrir newid posib yn y broses rheoli portffolio, rhaglenni a phrosiectau o'r cychwyn cyntaf. Bydd maint a sgôp y prosiect yn pennu'r ffordd orau o reoli newid posib, fodd bynnag, nid oes modd asesu pob newid.

Mae tri chategori o newid o fewn Cynllun Twf Gogledd Cymru:

- **Newidiadau lefel portffolio** - newidiadau sylweddol a fydd yn effeithio ar y portffolio cyffredinol yn cynnwys effeithio ar gyllidebau, amcanion gwariant a buddion.
- **Newidiadau lefel rhaglen** - newidiadau a fydd yn effeithio ar y rhaglen, ond nid y portffolio ehangach.

## Newidiadau lefel prosiect - newidiadau a fydd yn effeithio ar y prosiect, ond nid y rhaglen ehangach na'r Categorïau Newid

Gellir dosbarthu newid i dri chategori gwahanol, a'r prif rai yw rheoleiddiol, amgylcheddol, ariannol, enw da a chymdeithasol, cyflawni rhaglenni a phrosiectau ac iechyd a diogelwch. Mae'r rhain yn gategorïau eang sy'n ymdrin â'r rhan fwyaf o senarios ond, yn sgil eu natur, ni ellir rhagweld pob newid na lliniaru eu heffaith.

Rhoddir enghreifftiau o'r newid a all godi o fewn y categorïau hyn isod.

| Categorïau o Newid | Enghreifftiau a allai effeithio ar y Cynllun Twf |
|---|---|
| **Newid Rheoleiddiol** | - Rheolau Cymorth Gwladwriaethol<br>- Cynllunio a Pholisïau eraill Llywodraeth Leol<br>- Caniatâd Cynllunio a chymeradwyaeth rheoleiddiol arall<br>- Tollau a Rheoli Ffiniau<br>- Newid Gwleidyddol ac ymrwymiad<br>- Rheoliadau adeiladu a deunyddiau adeiladu.<br>- Newid na fu modd eu rhagwelwyd a newid rheoleiddiol arall |
| **Newid Amgylcheddol** | - Effeithlonrwydd Ynni, Llygredd, Allyriadau Carbon<br>- Newid Hinsawdd; llifogydd ac effaith amgylcheddol.<br>- Polisi defnydd tir<br>- Buddiannau a pherchnogion Tir ac Eiddo<br>- Polisi cynllunio |
| **Newid Ariannol** | - Perfformiad a rheolaeth ariannol<br>- Rheolau gweithdrefnol ariannol<br>- Cynnydd cost<br>- Rheolau caffael a chyfraith achos<br>- Rheolau sefydlog contractau<br>- Twyll a throseddu<br>- Diwydrwydd dyladwy a newid mewn mecanweithiau cyflawni<br>- Methiant busnes<br>- Amserlenni |
| **Newid Cymdeithasol ac Enw da** | - Heriau cyfreithiol/adolygiad barnwrol<br>- Cefnogaeth wleidyddol ac Aelodau Etholedig<br>- Etholiad cyffredinol/lleol yn arwain at newid polisi neu wleidyddol<br>- Arweinyddiaeth Gymunedol<br>- Methiant prosiect<br>- Adroddiadau rheoleiddiol allanol<br>- Llywodraethu/Rheolaeth Ddemocrataidd<br>- Newid Polisi Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru<br>- Ymrwymiad gwleidyddol a phartneriaid<br>- Cyfathrebu, ymgynghori ac ymgysylltu |
| **Newid yn y Galw yn y Farchnad a Chyflawni Rhaglenni a Phrosiectau** | - Newid economaidd<br>- Galw yn y farchnad ac anghenion busnes<br>- Gwasanaethau sylfaenol a chapasiti isadeiledd<br>- Anghenion ecoleg a bioamrywiaeth<br>- Gofynion Rheoleiddiol allanol<br>- Newid yn Sgôp y Rhaglen a'r Prosiect<br>- Capasiti'r Contractwr a'r ymgynghoriaeth<br>- Capasiti cyflawni<br>- Methiant busnes<br>- Newid mewn personél<br>- Hyder Busnes<br>- Capasiti'r gadwyn gyflenwi ac argaeledd deunyddiau<br>- Amserlenni<br>- Digwyddiadau na fu modd eu rhagweld |

# Proses Rheoli Newid

## Cam 1: Diffinio Newid

Wrth ddiffinio newid, mae angen bod yn glir beth yw'r newid a pham y cynigir y newid. Dylid defnyddio ffurflenni cais i newid a darparu manylion digonol a rhesymeg i wneud penderfyniad gwybodus Os na ddarperir manylion digonol, dylid mireinio'r cais i newid yn briodol fel y gellir asesu ei effaith.

Dylid cynnwys y newidiadau ar ffurflen cais i newid (Atodiad A).

## Cam 2: Asesu Newid

Pan fo newid wedi'i adnabod, a chais i newid wedi'i gyflwyno, y cam nesaf yw ystyried ei effaith ar y rhaglen neu'r prosiect. Yna, gellir ystyried y newid arfaethedig a'i effaith ar gyflawni'r rhaglen neu'r prosiect, ei sefyllfa ariannol, ei fuddion a'i gyflawni'n gost-effeithlon. Dylai'r broses ddilyniannol fod fel a ganlyn:

- Adnabod, diffinio ac asesu'r newid.
- Asesu statws cyfredol rhaglen neu brosiect.
- Ymgymryd ag asesiad o effaith bosib newid sydd wedi'i adnabod ar y rhaglen neu'r prosiect a'i gyflawni'n effeithiol fel y nodwyd yn y sgôp gwreiddiol, gan gynnwys ar wireddu buddion a'i sefyllfa ariannol.
- Argymhellir asesiad lefel uchel o'r meysydd sy'n debygol o gael eu heffeithio gan newid. Yna, dylid torri'r dadansoddiad o'r asesiad o newid posib i lawr i effaith mewn meysydd penodol a gallai'r rhain gynnwys yr isod
- Risg - pa mor gymhleth yw'r newid i'r rhaglen neu'r prosiect a beth yw'r effaith ar risg?
- Galw yn y Farchnad - a yw'r newid wedi effeithio ar y galw am yr allbwn?
- Cyllid - a fydd y newid yn effeithio ar faterion ariannu. A oes cyllid digonol neu gyllideb wedi'i chlustnodi i weithredu'r newid a chyflawni'r rhaglen neu brosiect?
- Adnoddau - pwy a beth fydd hyn yn ei gynnwys?
- Buddion - a fydd y newid yn effeithio ar y buddion sydd i'w gyflawni?
- Argaeledd/capasiti - a oes gan y Rhaglen neu'r Prosiect gapasiti i weithredu'r newid o fewn yr adnoddau presennol?

Mae defnyddio asesiad Coch, Ambr, Gwyrdd (RAG) ar gyfer effaith newid posib i raglen neu brosiect yn declyn defnyddiol i helpu i asesu p'un a oes angen ei ddyrchafu o fewn y Swyddfa Rheoli Portffolio. Gellir mesur yr asesiad RAG dangosol ar gyfer effaith y newid yn erbyn y prif feini prawf a ganlyn i asesu'r ffordd ymlaen.

| **Gwyrdd**: Asesiad RAG |
| --- |
| • Adnoddau - dim goblygiadau adnoddau ychwanegol<br>• Amser - dim effaith ar amserlen y prosiect<br>• Cyllideb - o fewn y gyllideb sydd wedi'i chlustnodi<br>• Buddion - dim gostyngiad mewn buddion<br>• Risgiau - dim risg ychwanegol |
| **Ambr:** Asesiad RAG |
| • Adnoddau - gellir bodloni'r adnoddau ychwanegol sydd eu hangen o fewn y timau cyflawni presennol<br>• Amser - oedi i'r prosiect yn debygol ond o fewn goddefgarwch derbyniol<br>• Cyllideb - Cynnydd/gostyngiad yn y gwariant a ragwelwyd o fewn goddefgarwch cytûn<br>• Risgiau - risgiau ychwanegol ond gellir eu lliniaru o fewn y gyllideb<br>• Buddion - gostyngiad neu gynnydd posib mewn buddion |
| **Coch**: Asesiad RAG |
| • Adnoddau - goblygiadau sylweddol ar adnoddau<br>• Amser - disgwylir oedi sylweddol<br>• Cyllideb - Cynnydd/gostyngiad yn y gwariant a ragwelwyd y tu hwnt i'r goddefgarwch cytûn<br>• Risgiau - risgiau sylweddol na ellir eu lliniaru o fewn y gyllideb<br>• Buddion - y buddion a dargedir yn annhebygol o gael eu cyflawni. |

Wrth asesu effaith bosib y ceisiadau i newid, mae hi hefyd yn hanfodol ystyried effaith peidio â gwneud y newid.

## Cam 3: Pennu'r ffordd ymlaen - cymeradwyo neu wrthod y newid

Unwaith y mae cais i newid wedi'i asesu, mae tri cham posib i'w cymryd:

- Cymeradwyo’r cais;
- Gwrthod y cais;
- Gofyn am wybodaeth bellach.

Yn dibynnu ar natur y newid a'r effaith bosib, gwneir penderfyniadau ar newidiadau ar wahanol lefelau o fewn y portffolio gyda llwybr clir i ddyrchafu o'r lefel prosiect i'r lefel rhaglen i'r lefel portffolio.

## Proses Ddyrchafu Rheoli Newid

Os na ellir cymeradwyo neu wrthod effaith y newid ar lefel prosiect, dylid dilyn y broses ddyrchafu a ganlyn.

**Prosiect > Rhaglen**

Bydd newidiadau prosiect posib o bryder neu effaith sylweddol yn cael eu dyrchafu i'r Bwrdd Rhaglen er ystyriaeth.

**Rhaglen > Portffolio**

Bydd newidiadau prosiect neu raglen posib o bryder neu effaith sylweddol yn cael eu dyrchafu i'r Bwrdd Portffolio er ystyriaeth.

**Portffolio > Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru**

Byddai newidiadau sylweddol, yn enwedig y rheini sydd â goblygiadau ariannol sylweddol, yn cael eu dyrchafu i'r Bwrdd Uchelgais am benderfyniad terfynol.

## Protocol Dyrchafu Newid

Mae angen i effaith y newid gael ei dyrchafu pan fo'r lefel goddefgarwch wedi'i chyrraedd, a hysbysir hyn drwy gwblhau ffurflen rheoli newid yn cofnodi'r newid ac asesiad ar y rhaglen neu'r prosiect a chwblhau'r gofrestr newid ar gyfer y rhaglen neu'r prosiect. Dylid dyrchafu effaith y newid pan na ellir ei datrys o fewn y rhaglen neu'r prosiect, ac mae enghreifftiau yn cynnwys:

- ei bod yn effeithio ar gyflawni'r rhaglen neu'r prosiect
- ei bod yn dangos anallu i fodloni cyflawni'r rhaglen neu'r prosiect
- ei bod yn effeithio ar faterion capasiti ar gyfer cyflawni'r rhaglen neu'r prosiect
- ei bod yn effeithio ar sefyllfa ariannol, cyfreithiol neu enw da Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
- y gallai bod effaith gymhleth ar draws y rhaglenni a'r gweithgareddau eraill
- bod unrhyw amheuaeth ynghylch a ddylid derbyn neu wrthod y newid

## Proses ar gyfer ymdrin â dyrchafu

- Rhoi gwybod i'r rheolwr rhaglen bod goddefgarwch newid wedi'i gyrraedd
- Cwblhau ffurflen cais i newid
- Diweddaru'r gofrestr newid ar gyfer y prosiect/rhaglen.
- Sicrhau'r broses reoli a'r adolygiadau
- Caiff y strategaeth rheoli newid hon ei hadolygu'n flynyddol a bydd yn ystyried cofrestrau newid y rhaglenni a'r prosiectau a gaiff eu gwneud yn fisol.

- Y Swyddfa Rheoli Portffolio fydd yn cynnal y gofrestr newid (Atodiad B) i sicrhau bod effeithiau newid dros amser yn cael eu cofnodi a'u cynnwys yn strategaeth cyflawni'r rhaglenni a'r prosiectau.

## Newidiadau Portffolio - Proses ar gyfer Ystyried Prosiectau Newydd

Mae'r Cynllun Twf yn bortffolio sy'n rhychwantu 15 mlynedd ac mae potensial na fydd pob un o'r 14 prosiect presennol yn cael eu cyflawni os na ellir arddangos buddion economaidd prosiectau penodol drwy achosion busnes prosiectau neu os bydd blaenoriaethau newydd yn dod i'r amlwg i'r rhanbarth. Mae'n bosib hefyd y bydd ffynonellau cyllid pellach yn cael eu hadnabod neu y cynhyrchir incwm drwy'r Cynllun Twf i'w ailfuddsoddi yn y prosiectau newydd.

Bydd unrhyw brosiectau newydd neu amgen yn fater i'r Bwrdd Uchelgais benderfynu arnynt o fewn yr amlen fforddiadwyedd gytûn ar gyfer y bartneriaeth a lle mae'r prosiectau'n cyflawni yn erbyn amcanion y Cynllun Twf a'i raglenni, yn benodol amcanion gwariant y portffolio ac amcanion gwariant y rhaglenni fel y nodir yn yr achosion busnes portffolio a rhaglenni cytûn.

Bydd angen i'r cynigion am brosiectau sy'n eistedd y tu allan i'r amlen ariannu gytûn ar gyfer y bartneriaeth ac y tu allan i'r paramedrau y cytunwyd arnynt gyda Llywodraethau'r DU a Chymru dderbyn cymeradwyaeth partneriaid unigol a/neu'r ddwy lywodraeth.

Byddai cynigion am brosiectau newydd neu amgen yn cael eu hasesu yn y bwrdd rhaglen perthnasol cyn iddynt gael eu hystyried gan y bwrdd portffolio a'r Bwrdd Uchelgais. Pe byddai'r Bwrdd Uchelgais yn cadarnhau prosiect newydd i'w ddatblygu, byddai achos busnes prosiect yn cael ei ddatblygu yn unol â'r broses sydd wedi'i nodi isod.




### Y Meini Prawf ar gyfer Ystyried Prosiectau Newydd

| Meini Prawf yr Asesiad Portffolio | |
|---|---|
| **Amcanion Gwariant y Portffolio** | **Ffactorau Llwyddiant Hanfodol** |
| 1. Creu rhwng 3,400 a 4,200 o swyddi newydd net yn y Gogledd drwy'r Cynllun Twf erbyn 2036.<br><br>2. Cefnogi cynnydd ychwanegol net o rhwng £2.0 biliwn a £2.4 biliwn mewn GVA i Economi'r Gogledd drwy'r Cynllun Twf erbyn 2036. | ▪ mae prosiectau wedi'u targedu'n ofodol ar draws y rhanbarth<br>▪ gall buddion y prosiectau fod yn berthnasol i'r rhanbarth cyfan<br>▪ mae prosiectau yn hwyluswyr<br>▪ prosiectau sy'n cefnogi twf ac yn denu buddsoddiad o'r sector preifat<br>▪ prosiectau sy'n hyrwyddo arloesi |

| | |
|---|---|
| 3. Cyflawni cyfanswm o hyd at £1.1 biliwn o fuddsoddiad yn Economi'r Gogledd drwy'r Cynllun Twf erbyn 2036. | |
| **Amcanion Gwariant y Rhaglenni*** <br> ** Caiff Amcanion Gwariant y Rhaglenni eu hadolygu'n flynyddol gan y Bwrdd Uchelgais a gellir eu diwygio os oes effaith negyddol ar amcanion gwariant y portffolio cyffredinol. Gweler Achosion Busnes y Rhaglenni am fanylion.* | |

# Atodiadau

## Atodiad: Ffurflen Cais i Newid

<table>
<tr><th colspan="8"><Enw'r Rhaglen> - Ffurflen Cais i Newid (RFC)</th></tr>
<tr><th colspan="8">Noder: Rhaid ei chyflwyno i <Enw Person> er mwyn ei dosbarthu i'r Grŵp Rheoli Rhaglen (PMG) sydd â'r awdurdod i dderbyn/dyrchafu newidiadau (lle bo hynny'n briodol) i'r <Enw'r Grŵp></th></tr>
<tr><td>Rhif Cais i Newid<br><br>(Neilltuir gan y Swyddfa Rheoli Portffolio)</td><td colspan="7"></td></tr>
<tr><td>Teitl y Newid</td><td colspan="7"></td></tr>
<tr><td>Math o Newid<br><br>(Cynllun / Sgôp / Rolau)</td><td colspan="7"></td></tr>
<tr><td>Enw'r Sawl sy'n Gwneud Cais i Newid</td><td colspan="2"></td><td colspan="2">Gweithredwr y Newid</td><td colspan="3"></td></tr>
<tr><td>Dyddiad Cais i Newid</td><td colspan="7"></td></tr>
<tr><td>Maes Rhaglen /<br><br>Cyfeirnod y Prosiect</td><td colspan="2"></td><td colspan="2"></td><td colspan="3"></td></tr>
<tr><td>Cais Brys (Ie/Na)</td><td colspan="2"></td><td colspan="2">Dyddiad ac Amser Gweithredu a Geisir</td><td colspan="3"></td></tr>
<tr><td>Brys</td><td>3 - Uchel</td><td></td><td>2 - Canolig</td><td></td><td>1 - Isel</td><td></td><td></td></tr>
<tr><th colspan="8">Crynodeb o'r Newid</th></tr>
<tr><td>Disgrifiad o'r Newid</td><td colspan="7">
<ul>
<li>Disgrifiad o beth yw'r newid y gwneir cais amdano</li>
<li>Os yw'r Newid yn ymwneud â charreg filltir - nodwch rhif adnabod a theitl y garreg filltir</li>
<li>Pa feysydd o'r busnes y mae'r newid hwn yn effeithio arnynt?</li>
<li>Rhesymau pam fod y newid yn cael ei weithredu.</li>
<li>Os yw'n Frys, pam?</li>
<li>Effaith y newid os na chaiff ei weithredu?</li>
<li>A oes trafodaethau blaenorol wedi'u cynnal ynghylch y Newid hwn? Os oes, beth oedd yr adborth?</li>
</ul>
</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| **Goblygiadau Cost** | • *A oes goblygiadau cost, os felly, faint?*<br>• *Pwy sy'n talu'r gost?* |
| **Cyfiawnhad Busnes dros y Newid** | • *Pam fod angen y newid ar y dyddiad hwn?*<br>• *A fydd y newid yn ychwanegu gwelliant i'r Broses?*<br>• *A fydd y newid yn ychwanegu gwelliant i'r Perfformiad?*<br>• *A fydd y newid yn ychwanegu nodweddion ychwanegol?* |
| **Manylion y Newid** | |
| **Camau'r Newid**<br><br>**(lle bo hynny'n berthnasol)** | • *Beth yw camau'r newid?*<br>• *Beth yw effaith gweithredu'r newid (cost, adnoddau, sgôp, R&R)?*<br>• *A oes angen hyfforddiant ychwanegol?*<br>• *A oes angen profi ychwanegol?* |
| **Profi Derbyn**<br><br>**(lle bo hynny'n berthnasol)** | • *Rhestrwch y drefn prawf derbyn?*<br>• *A oes gwerthwr ynghlwm? Os oes, a brofwyd y newid gan y gwerthwr?*<br>• *A brofwyd y newid gan y sawl sy'n gwneud y cais?*<br>• *A brofwyd y newid gan y gweithredwr?*<br>• *A brofwyd y newid ar amgylchedd prawf?*<br>• *Beth yw'r cynlluniau Adolygu Ar Ôl Gweithredu?* |
| **GWERTHUSIADAU** | |
| **Effaith** | *[Cyn y Bwrdd Rhaglen, cofiwch gysylltu gyda'r rhanddeiliaid priodol yr effeithi arnynt yn fewnol/allanol i'r Rhaglen i asesu effaith y newid arfaethedig ar eu maes gwaith.]* |
| **Argymhelliad** | *[Yn seiliedig ar yr asesiad effaith, nodwch yr argymhellion gan y rhanddeiliaid yr effeithiwyd arnynt. Os mai'r argymhelliad yw i wrthod, neu olygu, yna eglurwch pam.]* |

## Atodiad B: Enghraifft o Gofrestr Newid

| **I’w gwblhau gan y Rheolwr Newid** | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhif Adnabod y Newid** | | | | | | | | |
| **Dyddiad Cyflwyno'r RFC (Dyddiad PMG)** | | | | | | | | |
| **Brys/Blaenoriaeth** | 3 - Uchel | | 2 - Canolig | | 1 - Isel | | | |
| **Math o Newid** | | | | | | | | |
| **Cost y Newid** | | | | | | | | |
| **Adnoddau Angenrheidiol er mwyn Gweithredu** | | | | | | | | |
| **Deilliannau'r Swyddfa Rheoli Portffolio (PMO)** | | | | | | | | |
| **Statws Awdurdodi** | Cymeradwyo | | Gwrthod | | Gwybodaeth ychwanegol y gofynnwyd amdani | | Cyfeiriwch at <Grŵp> | |
| **Nodiadau'r PMO** | | | | | | | | |
| **Gweithredwr y Newid** | | | | | | | | |
| **<Enw'r Grŵp> Deilliannau** | | | | | | | | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Statws Awdurdodi** | Cymeradwyo | | Gwrthod | | Gwybodaeth ychwanegol y gofynnwyd amdani | | Cyfeiriwch at <Grŵp> | |
| **<Enw'r Grŵp> Nodiadau** | | | | | | | | |
| **Gweithredwr y Newid** | | | | | | | | |
| **<Enw'r Grŵp> Deilliannau** | | | | | | | | |
| **Statws Awdurdodi** | Cymeradwyo | | Gwrthod | | Gwybodaeth ychwanegol y gofynnwyd amdani | | | |
| **<Enw'r Grŵp> Nodiadau** | | | | | | | | |
| **Gweithredwr y Newid** | | | | | | | | |

# Atodiad C - Atebolrwydd Rheoli Newid

**Atebolrwydd dros Newid**

Gofynion sylfaenol y Rheoli Newid yw:

- Y Swyddfa Rheoli Portffolio (PMO) sydd berchen ar y broses ac yn ei rheoli
- Mae angen perchnogaeth a dealltwriaeth o'r broses newid ar bob lefel.
- Rhaid i gyfrifoldebau a goddefgarwch cymeradwyo gael eu diffinio'n glir
- Adnabod gwerthusiad ac asesiad o'r newid
- Mecanwaith ar gyfer dyrchafu a llacio.
- Ymglymiad gweithredol gan y Bwrdd, y Grŵp Gweithredol, y Swyddfa Rheoli Portffolio, y Byrddau Rhaglen a Phrosiect.

**Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru**

- Y Bwrdd Uchelgais yw'r corff gwneud penderfyniadau ar gyfer y Cynllun Twf a gall ddirprwyo awdurdod i gymeradwyo newidiadau o fewn y goddefgarwch cytûn fel rhan o gymeradwyo'r achosion busnes prosiect.

Y Bwrdd Portffolio

- Sicrhau bod risgiau'r Byrddau yn cael eu rheoli'n effeithiol
- Gosod y lefel briodol o newid y gellir ei oddef ar gyfer y Bwrdd
- Gosod Cynllun Cyflawni Prosiectau a Rhaglenni'r Bwrdd, ei flaenoriaethau a'i amcanion gyda goddefgarwch newid wedi'i adnabod a'i asesu

Mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn gyfrifol am:

- Weithredu'r Strategaeth Rheoli Newid a rheoli'r broses;
- Sefydlu mentrau/prosiectau/cynlluniau gweithredu rheoli newid rhaglenni
- Asesu ceisiadau i newid;
- Monitro gweithredu’r ceisiadau i newid sydd wedi'u cymeradwyo
- Cofnodi'r holl geisiadau i newid

Mae Rheolwyr Prosiect yn gyfrifol am:

- Hysbysu'r Rheolwr Rhaglen a chwblhau asesiadau a cheisiadau newid perthnasol.
- Cynnal y cofrestrau rheoli newid yn rheolaidd.
- Rhannu gwybodaeth berthnasol gyda chydweithwyr mewn meysydd Prosiect a Rhaglen eraill.
- Darparu adborth ar eu profiad o reoli newid a'i weithrediad a chanfyddiadau o'i effeithiolrwydd i'r Swyddfa Rheoli Portffolio.